# Ymgynghoriad ar ddiweddariadau i ganllawiau technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar labelu alergenau bwyd a gofynion gwybodaeth

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 27 Mawrth 2023
Dyddiad cau: 22 Mai 2023

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol yn bennaf:

- Busnesau bwyd sy'n darparu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS)
- Busnesau bwyd sy'n darparu bwyd y mae angen darparu datganiad Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL) ar ei gyfer
- Timoedd diogelwch bwyd awdurdodau lleol
- Cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant bwyd
- Unrhyw sefydliad neu berson arall sydd â buddiant mewn polisi gorsensitifrwydd i fwyd

# Diben yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal fel rhan o adolygiad a diweddariad rheolaidd i'r Canllawiau Technegol ar Labelu Alergenau.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ceisio adborth gan randdeiliaid ar ddau ddiweddariad allweddol i ganllawiau o ran eu cwmpas a'u heffaith – safonau ar gyfer defnyddio labelu alergenau rhagofalus (PAL) a chanllawiau arferion gorau sy'n nodi na ddylid defnyddio datganiadau dim cynhwysion sy'n cynnwys glwten (*No Gluten Containing Ingredients*) (NGCI).

Mae'r canllawiau hefyd wedi'u diwygio er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at gyfraith bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gywir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, yn ogystal â diweddariadau nad ydynt yn dechnegol i wella eglurder a dealltwriaeth o'r ddogfen.

Ceir mwy o fanylion am yr adrannau penodol sydd wedi'u diweddaru ar ail dudalen y Canllawiau Technegol.

Mae'r ASB yn ceisio sylwadau ac adborth ar sut mae polisïau presennol yn cael eu mynegi fel rhan o'n diweddariadau arfaethedig i ganllawiau technegol. Gallai hyn gynnwys unrhyw effeithiau posib y gallent eu cael.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yr ASB yn casglu ac yn ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law, cyn diwygio a chyhoeddi'r Canllawiau Technegol diwygiedig yn ystod yr haf 2023.

## Pecyn ymgynghori

Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiweddariadau arfaethedig i ganllawiau technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar ofynion gwybodaeth a labelu alergenau bwyd (fersiwn hygyrch)

## Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad hwn bellach wedi dod i ben.

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgyngoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Os oes angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat haws ei ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Fawrhydi.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a chynnwys dolen iddo ar y dudalen hon. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU.. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.